O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 531 (Cy.75)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r Gorllewin o Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r Gorllewin o Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan symudir yr arwyddion traffig dros dro oddi yno;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A40 i'r gorllewin o Gaerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r U2121 i bwynt 4711 o fetrau i'r gorllewin o ganol y gyffordd o dan sylw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio, fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd yn ystod yr adegau hynny pan fydd y cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt ar waith.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Chwefror 2011

**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.